Y
Comisiwn
Etholiadol

LLEISIAU IFANC AR DDEMOCRATIAETH

Beth maen nhw'n ei wybod a'r hyn y maen nhw ei angen

Cynnwys

1 Pwy ydym ni a beth yw democratiaeth?

2 Gwrando ar bobl ifanc

3 A oes gan bobl ifanc ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth?

4 A ydym yn rhoi digon o wybodaeth i bobl ifanc am wleidyddiaeth, democratiaeth a phleidleisio?

5 A yw pobl ifanc yn teimlo'n hyderus i bleidleisio?

6 Pwy sy'n addysgu pobl ifanc am wleidyddiaeth, democratiaeth a phleidleisio?

7 Beth sydd ei angen ar bobl ifanc i fod yn bleidleiswyr ymgysylltiedig a gwybodus?

8 Byddwch yn wybodus a chymerwch ran

Mae pobl ifanc yn rhan hanfodol o'n democratiaeth. P'un a ydynt yn meithrin dealltwriaeth gynnar am wleidyddiaeth neu'n bwriadu pleidleisio am y tro cyntaf, dylent deimlo'n hyderus ynghylch cymryd rhan mewn etholiadau, nawr neu yn y dyfodol.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn credu'n gryf y dylai pob person ifanc gael y cyfle i ddysgu am ddemocratiaeth, gan roi'r wybodaeth a'r hyder iddynt gymryd rhan. Hyd yn hyn, rydym wedi cefnogi dros hanner miliwn o bobl ifanc i gymryd rhan mewn democratiaeth drwy ein hadnoddau a gweithio gydag ysgolion a sefydliadau ieuenctid.

Drwy hyn, rydym wedi gweld pa mor awyddus yw pobl ifanc i ddysgu mwy am wleidyddiaeth ac etholiadau. Mae ein hymchwil hefyd yn dangos po gynharaf y bydd rhywun yn dysgu ac yn siarad am wleidyddiaeth, y mwyaf tebygol y byddant yn dangos diddordeb yn ein democratiaeth. Mae pleidleisio yn ffurfio arfer, a pho fwyaf a wnawn i roi'r wybodaeth gywir i bobl ifanc nawr, y mwyaf hyderus y byddant.

Gwyddom hefyd fod awydd i gyfarfod â gwleidyddion a chlywed yn uniongyrchol ganddynt, sy'n helpu i feithrin dealltwriaeth o'u rôl ac annog trafodaeth barchus. Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn ceisio ehangu ein gwaith addysg, gan gynnwys cynyddu cyfleoedd i feithrin y mathau hyn o gyfarfodydd.

Mae'n bleser gennym gyhoeddi'r canfyddiadau hyn a rhannu'r mewnwelediadau pwysig hyn yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc. Fel y genhedlaeth nesaf o bleidleiswyr, dylai eu llais a'u barn gael eu clywed.

Vijay Rangarajan,
Prif Weithredwr
y Comisiwn Etholiadol

1 Cyflwyniad

Pwy ydym ni?

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol sy'n sicrhau bod etholiadau yn y DU yn deg, yn agored ac yn cael eu rhedeg yn dda. Rydyn ni yma i sicrhau ei gyfanrwydd yn ogystal â helpu pawb i ddeall sut i bleidleisio a theimlo'n hyderus wrth gymryd rhan.

Rydym hefyd yn rheoleiddio'r arian a roddir i bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr a'r hyn y maent yn ei wario, gan sicrhau bod y cyfan yn cael ei wneud yn deg, yn dryloyw ac yn gyfreithlon.

Beth mae democratiaeth yn ei olygu?

Democratiaeth yw'r system sy'n rhoi llais i bawb ynghylch sut y caiff y wlad ei rhedeg. Mae'n gweithio orau pan fydd gan bawb gyfle i gymryd rhan. Nid yw'n ymwneud â phleidleisio yn unig - mae'n ymwneud â deall sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a theimlo'n wybodus am etholiadau a sut i ymuno, boed hynny ar lefel leol neu genedlaethol.

2

Gwrando ar bobl ifanc

Mae'r ymchwil hwn yn dwyn ynghyd mewnwelediadau gan dros 2,500 o bobl ifanc, rhwng 11 a 25 oed, o bob rhan o'r DU. Defnyddiwyd cymysgedd o arolygon a grwpiau ffocws i gasglu eu barn a gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud.

Fe wnaethom gynllunio'r cwestiynau i ddeall faint mae pobl ifanc yn ei wybod am bleidleisio, gwleidyddiaeth a democratiaeth, a pha mor hyderus y maent yn teimlo am y pynciau hyn. Buom hefyd yn archwilio'r hyn a addysgir mewn ysgolion, lle mae pobl ifanc yn cael eu gwybodaeth, beth y gellid ei wella a sut y gall mwy o bobl ifanc ymgysylltu â democratiaeth. Cyflawnwyd yr ymchwil hon gan DJS Research ar ran y Comisiwn Etholiadol.

Diolch yn fawr iawn i'n partneriaid a'n hyrwyddwyr llais ieuenctid am helpu i lunio'r ymchwil hwn a chyfrannu at yr adroddiad hwn.

Rwy'n mwynhau bod yn rhan o'r Rhwydwaith Llais Ieuenctid yn fawr iawn, gan fy mod i'n dod i ddeall mwy am sut mae etholiadau'n cael eu rhedeg, a faint o waith sy'n mynd i'w gwneud nhw'n gyfartal. Mae'n bwysig i bobl ifanc bleidleisio, gan ei fod yn gyfle di-ffael iddynt allu dweud eu dweud ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Evelyn, Hyrwyddwr Llais Ieuenctid

3

A oes gan bobl ifanc ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth?

45%

Mae llai na hanner o bobl ifanc yn y DU yn dweud bod ganddyn nhw ddiddordeb yng ngwleidyddiaeth y DU. Mae lefelau diddordeb yn debyg ymhlith pobl ifanc yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ond tua 10% yn is ar gyfer y rhai yng Ngogledd Iwerddon.

36%

Mae diddordeb mewn gwleidyddiaeth leol hyd yn oed is – patrwm a welwyd ar draws y pedair gwlad. Adlewyrchir y diffyg diddordeb hwn mewn arferion pleidleisio, gyda llawer o bobl ifanc yn dweud nad ydynt yn pleidleisio oherwydd nad yw gwleidyddiaeth o ddiddordeb iddynt.

Mae diddordeb mewn gwleidyddiaeth hefyd yn amrywio ar draws grwpiau gwahanol

Oedran	Rhanbarth	Ethnigrwydd
Dim ond 34% o bobl ifanc 15-17 oed sydd â diddordeb yng ngwleidyddiaeth y DU, er gwaethaf y ffaith y gallant bleidleisio yn fuan.	Mae 63% o'r rheiny sydd wedi'u lleoli yn Llundain yn dangos diddordeb mewn gwleidyddiaeth, sy'n sylweddol uwch rhanbarthau eraill yn Lloegr.	Mae 57% o bobl Ddu ifanc yn mynegi diddordeb yng ngwleidyddiaeth y DU, y gyfradd uchaf o gymharu ag unrhyw grŵp ethnig arall.

Dwi'n cymryd nad oes llawer o bobl yn rhyngweithio â'u ASau lleol a'u cynghorau, ac felly does ganddynt ddim llawer o ddiddordeb yn y pethau lleol, ond yn amlwg yn ystod yr etholiadau cyffredinol, mae pawb yn cymryd rhan.

Bachgen 17-25 oed

4

A ydym yn rhoi digon o wybodaeth i bobl ifanc am wleidyddiaeth, democratiaeth a phleidleisio?

Llywodraeth y DU

Dywedodd llai na thraean o bobl ifanc eu bod yn gwybod llawer am yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud.

Mae 31% yn gwybod llawer am beth mae Llywodraeth y DU yn ei wneud

Seneddau gwledydd datganoledig

Mae ymwybyddiaeth o'r seneddau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn is yn gyffredinol:

Mae 24% eisiau gwybod llawer mwy am beth mae Senedd yr Alban yn ei wneud

Mae 18% yn gwybod llawer am beth mae Cynulliad Gogledd Iwerddon yn ei wneud

Mae 15% yn gwybod llawer am beth mae Senedd Cymru yn ei wneud

A yw'r hyn y mae pobl ifanc yn ei wybod am wleidyddiaeth yn dylanwadu ar faint o ddiddordeb sydd ganddynt?

Mae pobl ifanc sy'n gwybod llawer am Lywodraeth y DU **deirgwaith yn fwy tebygol** o fod â diddordeb mewn gwleidyddiaeth na'r rhai nad ydynt yn gwybod dim o gwbl.

Beth sy'n digwydd pan nad oes gan bobl ifanc ddigon o wybodaeth am wleidyddiaeth?

Dywedodd **28%** o'r rhai na wnaethant bleidleisio ei fod oherwydd nad oeddent yn gwybod pa ymgeisydd i'w ddewis. Mae'r bylchau mewn gwybodaeth wleidyddol yn ymestyn i'r broses bleidleisio hefyd.

Pa mor dda mae pobl ifanc yn deall pleidleisio mewn etholiad cyffredinol?

Mae 84% yn gwybod bod angen i chi gofrestru cyn pleidleisio

Mae 37% yn gwybod na allwch bleidleisio ar-lein

Mae 49% yn gwybod nad yw mynd ag ID ffotograffig gyda chi yn ddewisol

A yw pobl ifanc yn cael digon o wybodaeth am bleidleisio mewn etholiadau?

Fe wnaethom ofyn i'r rhai 18 oed neu hŷn, a bleidleisiodd mewn etholiadau diweddar, sut roedden nhw'n teimlo am yr wybodaeth a oedd ganddyn nhw ar y pryd.

Pwy?

Mae 57% angen rhagor o wybodaeth ar bwy i bleidleisio drostynt

Pam?

Mae 49% angen rhagor o wybodaeth ynghylch pam y mae'n bwysig pleidleisio

Sut?

Mae 48% angen rhagor o wybodaeth am sut i bleidleisio

Gyda llawer o bobl ifanc eisiau rhagor o wybodaeth am sut i bleidleisio a pham, mae'n glir bod angen mwy o addysg arnynt am ddemocratiaeth ac etholiadau.

5

A yw pobl ifanc yn teimlo'n hyderus i bleidleisio?

Mae'n ymddangos y gallai diffyg gwybodaeth hefyd fod yn effeithio ar hyder pobl ifanc wrth bleidleisio, gan mai dim ond hanner y rhai nad ydynt wedi pleidleisio o'r blaen sy'n hyderus y byddent yn gwybod sut i wneud hynny. Ar ben hynny, nid yw pawb sy'n gymwys i bleidleisio – neu a fydd yn gymwys cyn bo hir – yn hyderus â'r broses.

Pa ganran sy'n teimlo'n hyderus wrth bleidleisio?



Beth sy'n dylanwadu ar hyder wrth bleidleisio?

Mae clywed am wleidyddiaeth gartref neu yn yr ysgol yn gwneud gwahaniaeth mawr o ran pa mor hyderus y mae pobl ifanc yn teimlo am bleidleisio, ond mae llawer ohonynt yn colli allan ar y trafodaethau hyn.

Mae 81%

o'r rheiny sy'n siarad am wleidyddiaeth gartref yn wythnosol, neu sawl gwaith yr wythnos, yn teimlo'n hyderus am bleidleisio

Ond dim ond hanner o bobl ifanc sy'n cael y trafodaethau hyn yn rheolaidd.

Mae 76%

o'r rheiny sydd wedi clywed am wleidyddiaeth yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn teimlo'n hyderus am bleidleisio

Ond mae dros traean o blant ysgol wedi dysgu amdani drwy'r ffordd hon.

6 Pwy sy'n addysgu pobl ifanc am wleidyddiaeth, democratiaeth a phleidleisio?

Y pum prif ffynhonnell wybodaeth wleidyddol i bobl ifanc:

1. **Teledu**
2. **Cyfryngau cymdeithasol**
3. **Oedolion gartref**
4. **Y rhyngrwyd**
   ddim yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol
5. **Yn yr ysgol neu'r coleg**

Dwi ddim yn synnu ei gweld [gwleidyddiaeth] ar y teledu ychwaith, mae wastad ymlaen 'da Dad pan fyddai'n cerdded drwy'r ystafell fyw.

Bachgen 11-13 oed

Er mai teledu yw'r ffordd orau y mae pobl ifanc yn dweud eu bod yn clywed am wleidyddiaeth, mae hyn yn tueddu i gael ei dreulio'n oddefol (ar gyfer enghraifft, gorglywed beth eu rhieni yn gwylio), yn lle rhywbeth maen nhw wedi dewis gwylio eu hunain.

Cyfryngau cymdeithasol yw'r ail ffynhonnell fwyaf cyffredin.

Mae pobl ifanc yn cael y rhan fwyaf o'u gwybodaeth am wleidyddiaeth, pleidleisio, ac etholiadau o ffynonellau y mae ganddynt ychydig neu dim rheolaeth drostynt neu nad ydynt yn ymddiried yn llawn ynddynt. Fodd bynnag, maent yn llawer mwy tebygol o ymddiried yn yr hyn maent yn ei ddysgu am wleidyddiaeth gan rieni neu athrawon.

O ran dysgu am wleidyddiaeth...

Mae 44%
yn ymddiried mewn cyfryngau cymdeithasol

Mae 78%
yn ymddiried yn yr hyn y maen nhw'n ei ddysgu gan eu rhieni

Mae 74%
yn credu'r hyn y maen nhw'n ei ddysgu am wleidyddiaeth yn yr ysgol/coleg

Mae addysg ddemocrataidd yn bwysig iawn gan fod pleidleisio mewn etholiadau yn caniatáu i chi fynegi eich credoau, sefyll dros yr hyn yr ydych yn credu ynddo a chael eich llais wedi'i glywed. I mi, mae hyn yn hanfodol oherwydd dylai barn pawb gael ei chynrychioli, ac addysg yw'r ffordd orau o rymuso ac annog eraill i fod yn ymgysylltiedig a dweud eu dweud.

David, Hyrwyddwr Llais Ieuenctid

Dyw llawer o bobl ifanc ddim yn cael sgyrsiau rheolaidd am wleidyddiaeth gartref neu yn yr ysgol. Yn fwy na hynny, dywedodd y rhai a oedd wedi clywed am wleidyddiaeth yn yr ysgol yn ddiweddar ei bod yn aml yng nghyd-destun gwersi hanes, yn hytrach na democratiaeth fodern.

Beth mae hyn yn ei ddweud wrthon ni?

Dyw pobl ifanc ddim bob amser yn dysgu am wleidyddiaeth yn y lleoedd y maent yn ymddiried fwyaf ynddynt, sy'n amlygu'r angen am fwy o sgyrsiau am wleidyddiaeth gartref ac yn yr ysgol.

7 Beth sydd ei angen ar bobl ifanc i fod yn bleidleiswyr ymgysylltiedig a gwybodus?

Mae pobl ifanc yn dod ar draws cynnwys gwleidyddol mewn llawer o leoedd, ond ni allant bob amser fod yn siŵr ei fod yn ddibynadwy. Cytunodd llawer ohonynt y dylid bod mwy o addysg ddemocrataidd mewn ysgolion a cholegau. Gadewch i ni weld beth maen nhw am ddysgu a sut hoffent gael yr wybodaeth hon:

Mae **72%** yn meddwl y dylai plant a phobl ifanc ddysgu mwy am wleidyddiaeth yn yr ysgol/coleg

Maen nhw eisiau gwybod mwy am:

Pleidiau gwleidyddol
56%

Pa wahaniaeth mae fy mhleidlais i'n ei wneud
54%

Sut i bleidleisio
30%

Trwy'r rhwydwaith Llais Ieuenctid dwi wedi dod i ddeall bod addysg ddemocrataidd yn bwysicach nag erioed. Mae'r gostyngiad diweddar mewn cyfraddau pleidleisio ymhlith pobl ifanc yn peri cryn bryder, gan ei fod yn amlygu diffyg ymwybyddiaeth ynghylch sut mae gwleidyddiaeth yn effeithio ar ein bywydau.

Zani, Hyrwyddwr Llais Ieuenctid

Sut mae pobl ifanc am ddysgu mwy am wleidyddiaeth yn yr ysgol/coleg?

Mae **44%** eisiau dysgu mwy am wleidyddiaeth mewn gwersi

Mae **42%** eisiau mwy o ymweliadau gan bobl sy'n gweithio mewn gwleidyddiaeth

Mae **34%** eisiau dysgu mwy drwy ymweliadau ysgol

Gan fod cymaint o bobl ifanc yn teimlo nad ydyn nhw'n dysgu digon am wleidyddiaeth yn yr ysgol, mae'n allweddol ein bod ni'n ateb y galw am addysg ddemocrataidd well mewn mannau y gellir ymddiried ynddynt.

Adnoddau addysg ddemocrataidd i addysgwyr ac athrawon:
electoralcommission.org.uk/cy/adnoddau/adnoddau-i-addysgwyr/adnoddau-addysg

8 Byddwch yn wybodus a chymerwch ran

Mae pobl ifanc yn dweud wrthym mai'r prif reswm maent yn pleidleisio yw i gael eu lleisiau wedi'u clywed. Rydym am eu cefnogi i feithrin yr wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen arnynt – nid yn unig i bleidleisio, ond i gymryd rhan mewn democratiaeth mewn ffyrdd eraill hefyd.

Barod i gymryd y cam nesaf?

Dyma rai ffyrdd i ddechrau...

Rhagor o wybodaeth:

Edrychwch ar ein hadnoddau i ddysgu popeth am ddemocratiaeth, etholiadau a phleidleisio:
electoralcommission.org.uk/cy/adnoddau/adnoddau-i-bobl-ifanc

Dechrau sgwrs:

Siaradwch â phobl gartref ac yn y gymuned a gofynnwch gwestiynau am y pethau sy'n bwysig i chi

Cymryd rhan:

Ymunwch â chyngor ysgol, cyngor ieuenctid lleol neu grŵp dadlau

Ysgrifennu:

Er mwyn rhannu eich barn neu i godi mater yn eich ardal leol, ysgrifennwch at eich cynrychiolydd etholedig lleol yn:
writetothem.com

Bod yn wybodus:

Dilynwch ffynonellau newyddion dibynadwy a gwiriwch wybodaeth – lle gwych i ddechrau yw:
shoutoutuk.org/resources/#media

Cofrestru i bleidleisio:

Os ydych yn 16 oed neu'n hŷn yn Lloegr neu Ogledd Iwerddon, neu'n 14 oed neu'n hŷn yng Nghymru neu'r Alban, gallwch gofrestru i bleidleisio yn:
gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Mae ymgysylltu â democratiaeth yn ffordd o gael eich llais wedi'i glywed. Gallwn gefnogi pobl i ddod yn wybodus drwy addysgu pobl am bwy yw'r pleidiau gwleidyddol, beth maen nhw'n ei gynnig, a sut i bleidleisio.

Andrew, Hyrwyddwr Llais Ieuenctid

Y
Comisiwn
Etholiadol

Y Comisiwn Etholiadol/The Electoral Commission
3 Bunhill Row
Llundain EC1Y 8YZ

Ff: 0333 103 1928

educationengagement@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk